GWEITHREDU AR GOLLED CLYW
CYMRU
Elusen genedlaethol ers 1911

Prosiect Hen Filwyr Oedrannus

Cefnogi hen filwyr hŷn sydd
â cholled clyw a/neu dinitws.

A ydych chi'n hen filwr o'r Lluoedd Arfog a anwyd cyn 1950? A ydych yn ei chael hi'n anodd clywed y teledu, y radio, cloch y drws neu'r ffôn? A ydych yn gorfod ymdrechu'n galed i glywed sgyrsiau wrth ymgynnull yn gymdeithasol? Neu efallai bod tinitws arnoch? Os felly, fe allwn helpu.

Beth yw'r Prosiect Hen Filwyr Oedrannus?

Gwasanaeth yw'r Prosiect Hen Filwyr Oedrannus a ddarperir gan Gweithredu ar Golled Clyw. Cynigiwn wybodaeth a chymorth i hen filwyr sydd â cholled clyw a thinitws, ac i'w teuluoedd a'u gofalwyr.

Cyllidir y prosiect gan y Canghellor, gan ddefnyddio Cronfeydd LIBOR, ac fe fydd yn weithredol tan fis Mawrth, 2020.

Pam mae arnom angen cefnogi hen filwyr sydd â cholled clyw?

Mae colled clyw'n broblem iechyd gyffredin yn y Lluoedd Arfog. Mae llawer o hen filwyr wedi bod yn agored dro ar ôl tro i sŵn uchel oddi wrth ddrylliau'n cael eu tanio, magnelau, peiriannau a mathau eraill o beirianwaith, a ffrwydradau.

Beth rydym yn ei wneud?

Mae ein gweithwyr allgymorth yn cynnig gwybodaeth a chymorth mewn lleoliadau cymunedol lleol hawdd eu cyrraedd ac yng nghartrefi pobl yng De a Chanolbarth Cymru. Gwnawn yn sicrbod hen filwyr, eu teuluoedd, a'u gofalwyr yn cael y cymorth y mae arnynt ei angen i roi sylw i'w pryderon ynglŷn â'u colled clyw a'u tinitws.

Yn benodol, cynigiwn:

- gwiriadau clyw sylfaenol
- gwybodaeth a chymorth
- cymorth cyn ac wedi i declynnau clyw gael eu gosod
- arddangosiadau o gyfarpar
- sgyrsiau â grwpiau cymunedol
- atgyfeiriadau i ffynonellau eraill o gymorth
- cyfleoedd i wirfoddoli

Mae Gweithredu ar Golled Clyw hefyd yn darparu:

- cymorth gyda thinitws
- cymorth i ddefnyddwyr teclynnau clyw
- gwybodaeth
- cymorth gyda chyflogaeth
- hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o fyddardod

I gael mwy o wybodaeth am ein Prosiect Hen Filwyr Oedrannus, neu i atgyfeirio, cofiwch gysylltu â ni, os gwelwch yn dda:

Gogledd Cymru

Charis Moon, Gweithiwr Allgymorth Rhanbarthol Gweithredu ar Golled Clyw

Llawr Gwaelod, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd CF24 5JW

0292 033 3034
07464 676 053
charis.moon@hearingloss.org.uk
@hearinglosscym

Gweithredu ar Golled Clyw (RNID gynt) yw'r elusen fwyaf yn y Deyrnas Unedig sy'n helpu pobl sy'n byw â byddardod, tinitws a cholled clyw.

Rhoddwn gymorth a gofal, datblygwn dechnoleg a thriniaethau, ac ymgyrchwn dros gydraddoldeb. Dibynnwn ar roddion i barhau â'n gwaith hanfodol.

I ganfod mwy o wybodaeth, ewch i **actiononhearingloss.org.uk**

Eisiau holi am fyddardod, tinitws neu golled clyw?

Cysylltwch â'n Llinell Wybodaeth gyfrinachol, am ddim

Ffôn	**0808 808 0123**
Ffôn Testun	**0808 808 9000**
SMS	**0780 000 0360** (mae cyfraddau anfon negeseuon testun safonol yn weithredol)
E-bost	**information@hearingloss.org.uk**

Join us

ActiononHearingLossCymru

@hearinglosscym

Aged Veterans Fund funded by the Chancellor using LIBOR funds.

First published: August 2018.

Action on Hearing Loss is the trading name of The Royal National Institute for Deaf People.
A registered charity in England and Wales (207720) and Scotland (SC038926). A1446/1218